CARDIFF
CAERDYDD

# Cyngor Dinas Caerdydd
# Canllaw Adnodd Sgrinio Statudol

Os ydych yn datblygu strategaeth, polisi neu weithgaredd sy'n debygol o effeithio ar bobl, cymunedau neu ddefnydd tir mewn unrhyw ffordd, mae nifer o ofynion statudol perthnasol. Gall peidio â chydymffurfio â'r gofynion hyn neu beidio â dangos ystyriaeth ddyledus, olygu bod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu gerydd ar ffurf arall.

Er enghraifft, bydd hyn yn berthnasol i strategaethau (h.y. Y Strategaeth Tai a'r Strategaeth Pobl Anabl), polisïau (h.y. Y Polisi Caffael) neu weithgareddau (h.y. datblygu ardal chwarae newydd).

Bydd cwblhau'r Adnodd Sgrinio Statudol yn sicrhau bod holl strategaethau, polisïau a gweithgareddau Cyngor Dinas Caerdydd yn cydymffurfio â'r gofynion a'r cyfrifoldebau statudol perthnasol. Os oes angen ystyried mater mewn mwy o fanylder, bydd yr Adnodd Sgrinio Statudol yn adnabod a oes unrhyw angen asesiad effaith llawn, fel y bo'n berthnasol.

---

Mae'r prif ofynion statudol y mae'n rhaid i strategaethau, polisïau neu weithgareddau eu hadlewyrchu yn cynnwys y canlynol:

- **Deddf Cydraddoldeb 2010 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
- **Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru - Cydamcanu - Cydymdrechu**
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
- **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn**
- **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011**
- **Asesiad o Effaith ar Iechyd**
- **Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd**
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol**

Mae'r Adnodd Sgrinio Statudol hwn yn caniatáu'r Cyngor i fodloni gofynion yr holl ddeddfwriaeth uchod fel rhan o ddull sgrinio integredig, ac ni ddylai gymryd mwy nag 1 awr i'w gwblhau.

---

Gellir cwblhau'r Adnodd Sgrinio Statudol fel hunan-asesiad neu fel rhan o sesiwn gyda hwylusydd petai angen rhagor o gymorth arnoch. Am ragor o wybodaeth neu os oes angen sesiwn gyda hwylusydd arnoch, cysylltwch â'r Rheolwr Gweithredol - Polisi, Partneriaethau a Chysylltu â'r Gymuned ar (029) 2078 8561 neu e-bostiwch: Gareth.Newell@caerdydd.gov.uk

Sylwch:

- **Mae'n rhaid cyflwyno'r Adnodd Sgrinio fel atodiad gyda'r adroddiad Cabinet.**
- **Cyhoeddir yr Adnodd Sgrinio wedi ei gwblhau ar fewnrwyd y Cyngor.**

# Adnodd Sgrinio Statudol

| | |
|---|---|
| **Enw'r Strategaeth / Polisi / Gweithgaredd:** Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Dinas Caerdydd 2017-2022 | **Dyddiad Sgrinio:** Chwefror 2017 |
| **Gwasanaeth / Isadran:** Caerdydd Ddwyieithog – Llywodraethiant a Chyfreithiol | **Swyddog Arweiniol:** Ffion Gruffudd |
| **Yn bresennol:** Hunan-asesu | |

| **Beth yw amcanion y Polisi/Strategaeth/Project/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth** | **Rhowch wybodaeth gefndirol am y Polisi/Strategaeth/Gweithdrefn/Gwasanaeth/Swyddogaeth ac unrhyw waith ymchwil sydd wedi'i wneud [e.e. data defnyddwyr gwasanaeth yn erbyn ystadegau demograffig, AEGau tebyg wedi'u gwneud ayyb.]** |
|---|---|
| Mae Strategaeth Iaith Gymraeg 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog Cyngor Dinas Caerdydd yn un o ofynion statudol Safonau'r Gymraeg (rhif 1) a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hon yn strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd.<br><br>Gweledigaeth y strategaeth hon yw datblygu Caerdydd gwbl ddwyieithog. Caerdydd lle gall ein dinasyddion fyw, gweithio a chwarae yn ogystal â manteisio ar wasanaethau a chymorth yn Gymraeg neu Saesneg yn yr un modd. Prifddinas lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo fel rhywbeth cwbl naturiol, a lle mae'r iaith Gymraeg yn cael ei diogelu a'i meithrin i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau a'i defnyddio. | Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg [Rhif 1] 2015). Rhestrir y safonau a gyflwynwyd i Gyngor Dinas Caerdydd yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd - Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.<br><br>Mae Safon 145 Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn mynnu bod y Cyngor yn cynhyrchu a chyhoeddi strategaeth 5 mlynedd erbyn 30 Medi 2016 sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd yn ogystal â chamau penodol i hwyluso'r defnydd o'r iaith yn unol â Strategaeth y Gymraeg 2012 - 17 Llywodraeth Cymru a strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: *miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050* (a gyhoeddwyd er mwyn ymgynghori arno yn Awst 2016).<br><br>Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 30 Medi yn unol â'r gofynion ac ers hynny mae cynllun gweithredu manwl ar gyfer y strategaeth wedi'i ddatblygu gyda'n partneriaid er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd.<br><br>Mae Safon y Gymraeg 145 yn datgan: |

| | |
|---|---|
| | **Rhaid i chi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) - (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid i chi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).**<br><br>Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd dros gyfnod o bum mlynedd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn cyflawni'r weledigaeth hon, rydym wedi gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gan 15.9% i 42,584 erbyn Cyfrifiad 2021. Cyflawnir hyn yn bennaf drwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2017-2020.<br><br>O'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus (223 ymateb) roedd **70.3%** yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r weledigaeth o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog.  Roedd **53.2%** yn cytuno â'n targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd.<br><br>Bydd Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cyfrannu at y saith amcan lles cenedlaethol yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu fel iaith fyw.' |

## Rhan 1: *Effaith ar ganlyniadau ac ystyriaeth ddyledus i Ddatblygu Cynaliadwy*

| Defnyddiwch y raddfa ganlynol wrth ystyried pa gyfraniad mae'r gweithgaredd yn ei wneud: | | |
|---|---|---|
| **+** | Cadarnhaol | Cyfraniad cadarnhaol at y canlyniad<br>Cyfraniad negyddol at y canlyniad<br>Cyfraniad niwtral at y canlyniad<br>Ansicr a oes unrhyw gyfraniad at y canlyniad |
| **-** | Negyddol | |
| **ntrl** | Niwtral | |
| **Ansicr** | Ddim yn siŵr | |

| | **A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd?** | Ticiwch | | | | **Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **+** | **-** | Ntrl | Ansicr | |
| **1.1** | **Mae pobl yng Nghaerdydd yn iach;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *hybu iechyd da, atal ymddygiad niweidiol, hyrwyddo bwyta'n dda/bywyd actif a.y.b.*<br>• *dinasyddion sy'n agored i niwed ac ardaloedd gydag amddifadedd lluosog*<br>• *mynd i'r afael ag achosion o anghydraddoldeb iechyd* | X | | | | Mae cynllun gweithredu Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yn cynnwys camau yn ymwneud â gweithgareddau chwarae a hamdden i blant a phobl ifanc rhwng 4-11 ac 11-18 oed.<br><br>Mae Menter Caerdydd ac Urdd Gobaith Cymru yn ddau bartner sy'n arbenigo mewn cynnig gweithgareddau chwarae a hamdden Cymraeg i blant ac oedolion ledled Caerdydd.<br><br>Mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys cam i gynyddu cyfleoedd i bobl gael gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Gymraeg. |
| **1.2** | **Amgylchedd glân, deniadol a chynaliadwy i bobl yng Nghaerdydd;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *achosion a chanlyniadau Newid yn yr Hinsawdd a chreu dinas carbon isel*<br>• *annog cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a gwella mynediad i'r wlad a mannau agored*<br>• *gostwng llygredd amgylcheddol (tir, aer, sŵn a dŵr)*<br>• *gostwng defnydd o ynni ac annog gostwng gwastraff, ailddefnyddio ac adfer*<br>• *annog bioamrywiaeth* | | | **X** | | |
| **1.3** | **Mae pobl Caerdydd yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:* | | | X | | |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | Ntrl | Ansicr | |
| | • *ostwng trosedd, ofn trosedd a gwella diogelwch unigolion*<br>• *mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol*<br>• *diogelu oedolion a phlant sy'n agored i niwed yng Nghaerdydd rhag niwed neu gamdriniaeth* | | | | | |
| **1.4** | **Mae gan Gaerdydd economi sy'n ffynnu a llewyrchu;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *gystadleurwydd economaidd (gweithgarwch menter, mentrau cymdeithasol, enillion cyfartalog, gwella cynhyrchedd)*<br>• *helpu'r rhai nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant*<br>• *denu a chadw gweithwyr (swyddi a chyfleoedd hyfforddi newydd, cynyddu gwerth cyflogaeth)*<br>• *hybu cyfleoedd caffael lleol neu wella gallu cwmnïau lleol i gystadlu* | | | X | | |
| **1.5** | **Mae pobl Caerdydd yn cyflawni eu llawn botensial;**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *hyrwyddo a gwella mynediad i ddysgu gydol oes yng Nghaerdydd*<br>• *codi lefelau sgiliau a chymwysterau*<br>• *rhoi'r dechrau gorau i blant*<br>• *gwella'r ddealltwriaeth o gynaliadwyedd*<br>• *mynd i'r afael â thlodi plant (tlodi ariannol, diffyg mynediad a diffyg cyfranogi)*<br>• *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac Egwyddorion ar gyfer Pobl Hŷn* | X | | | | Mae'r strategaeth yn cynnwys y blaenoriaethau canlynol a fydd yn helpu pobl Caerdydd i gyrraedd eu llawn botensial:<br>• Gwella cyfraddau dilyniant rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16.<br>• Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg ymwneud yn gadarnhaol â'r iaith Gymraeg.<br>• Rhoi cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol Cymraeg i blant a phobl ifanc i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiau'r ysgol.<br>• Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgìl gwerthfawr mewn hyfforddiant a chyflogaeth.<br>• Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fwy gweladwy yn y ddinas i |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch | | | | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | + | - | Ntrl | Ansicr | |
| | | | | | | adlewyrchu 'Caerdydd Ddwyieithog' trwy fecanweithiau cynllunio sydd eisoes yn bodoli.<br>• Cyflwyno'r iaith Gymraeg i gymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel modd o ddod â diwylliannau Cymru ynghyd a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg.<br>• Cefnogi'r Hen Lyfrgell – Canolfan Gymraeg Caerdydd i gynyddu gweithgareddau allgymorth a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a threftadaeth Gymraeg gyfoethog Caerdydd. |
| **1.6** | **Mae Caerdydd yn lle gwych i fyw, gweithio a chwarae ynddo**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *hybu amrywiaeth ddiwylliannol Caerdydd*<br>• *hybu cyfranogiad a mynediad i weithgarwch corfforol, hamdden a diwylliant i bawb*<br>• *cyfleoedd chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc*<br>• *diogelu a gwella'r dirwedd a threftadaeth hanesyddol Caerdydd*<br>• *hyrwyddo cysylltiadau rhyngwladol y ddinas* | | | | | Mae'r strategaeth yn cynnwys y blaenoriaethau canlynol a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar Gaerdydd fel lle i fyw, gweithio a chwarae.<br><br>• Cyflwyno'r iaith Gymraeg i gymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel modd o ddod â diwylliannau Cymru ynghyd a hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg.<br>• Rhoi cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.<br>• Normaleiddio dwyieithrwydd – amgylcheddau lle gellir defnyddio'r ddwy iaith yn hawdd a'u dathlu gan bob cefndir a diwylliant gan hyrwyddo perchnogaeth dros yr iaith a chydlyniad cymunedol.<br>• Hyrwyddo'r Gymraeg fel pwynt gwerthu unigryw i Gaerdydd fel prifddinas a dinas graidd, a hyrwyddo'r brand 'Caerdydd Ddwyieithog'. |
| **1.7** | **Mae Caerdydd yn gymdeithas deg, gyfiawn a chynhwysol.**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erlid ar gyfer grwpiau cydraddoldeb*<br>• *a yw'r gymuned neu'r rhanddeiliaid wedi ymwneud â datblygu'r strategaeth/polisi/gweithgarwch?*<br>• *sut yr anogir cyfranogiad dinasyddion (gan annog gweithredoedd a fydd yn ystyried gwahanol ffurfiau ar* | | | | | Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb isod ac wedi ei atodi.<br><br>Mae'r strategaeth yn cynnwys y blaenoriaethau canlynol yn ymwneud â grwpiau cydraddoldeb.<br><br>• Normaleiddio dwyieithrwydd – amgylcheddau lle gall y ddwy iaith gael eu defnyddio'n rhydd a'u dathlu gan bobl o bob diwylliant a chefndir gan hyrwyddo perchnogaeth o'r iaith a |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch + | - | Ntrl | Ansicr | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | *ymgynghori trwy ymgysylltu'n fwy trylwyr i sicrhau cyfranogiad llawn o ran datblygu a darparu gwasanaeth)?* | | | | | chydlyniad cymunedol.<br><br>**Ymgynghori â'r Gymuned a Rhanddeiliaid**<br><br>• Ymgynghoriad Cyhoeddus Ar-lein – 223 o ymatebion i gyd<br>• Ymatebion Staff - 28<br>• Digwyddiad ymgynghori mewnol ar 11 Awst – 20 yn bresennol<br>• Digwyddiad rhanddeiliaid ar 20 Hydref – 34 yn bresennol o 26 o sefydliadau<br>• 8 Chwefror 2017 – Fforwm Iaith Gymraeg<br>• 10 Chwefror – Partneriaid yr Hen Lyfrgell<br><br>Derbyniwyd 254 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori. O'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus (223 ymateb) roedd **70.3%** yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r weledigaeth o Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog. Roedd **53.2%** yn cytuno â'n targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd. |
| | *A fydd y Polisi/Strategaeth/Project yn cael **effaith wahaniaethol** ar unrhyw rai o'r canlynol?* | | | | | *Nodwch unrhyw fanylion/goblygiadau i'r effaith wahaniaethol (cadarnhaol a negyddol) a pha gam(au) y gallwch chi eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw oblygiadau negyddol.* |
| | • **Oed** (yn cynnwys plant a phobl ifanc 0-25 a phobl hŷn dros 65 oed yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig) | X | | | | Un o feysydd strategol Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog yw Teuluoedd, Plant a Phobl Ifanc. Ein gweledigaeth yw i deuluoedd, plant a phobl ifanc gael digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd.<br><br>• Hyrwyddo'r manteision o addysg Gymraeg i holl gymunedau Caerdydd a gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch + | - | Ntrl | Ansicr | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | • Hyrwyddo'r manteision o drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu a rhoi'r cyfle i blant a phobl ifanc fod yn oedolion dwyieithog hyderus.<br>• Rhoi cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.<br>• Cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol Cymraeg i blant a phobl ifanc i'w galluogi i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiau'r ysgol.<br>• Datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau Saesneg ymwneud yn gadarnhaol â'r iaith Gymraeg.<br>• Gwella cyfraddau dilyniant rhwng y blynyddoedd cynnar ac addysg ôl-16.<br>• Sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgìl gwerthfawr mewn hyfforddiant a chyflogaeth. |
| | • **Anabledd** | | | X | | |
| | • **Ailbennu rhywedd** | | | X | | |
| | • **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | | | X | | |
| | • **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | | | X | | |
| | • **Hil** | | | X | | Mae'r strategaeth yn cynnwys y blaenoriaethau canlynol yn ymwneud â grwpiau cydraddoldeb.<br><br>Cyflwyno'r iaith Gymraeg i gymunedau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg fel modd o ddod â diwylliannau Cymru ynghyd a |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch + | - | Ntrl | Ansicr | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | hyrwyddo dysgu Cymraeg ac addysg Gymraeg. |
| | • **Crefydd/Cred** | | | X | | |
| | • **Rhyw** | | | X | | |
| | • **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | X | | |
| | • **Y Gymraeg** | X | | | | Mae hon yn strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. Felly, bydd cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus; rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg.<br><br>Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd dros gyfnod o bum mlynedd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn cyflawni'r weledigaeth hon, rydym wedi gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gan 15.9% i 42,584 erbyn Cyfrifiad 2021.<br><br>Mae'r holl bartneriaid a restrwyd yn y strategaeth hon wedi cytuno i roi'r cynllun ar waith a monitro cynnydd yn erbyn adrannau perthnasol y cynllun gweithredu.<br><br>Ar ben hynny, mae Fforwm Iaith Gymraeg hir-sefydlog Caerdydd, a ailenwyd yn Fforwm Caerdydd Ddwyieithog, sy'n cynnwys cynrychiolaeth gan yr holl bartneriaid a restrwyd o fewn y Strategaeth, wedi cytuno i roi'r strategaeth ar waith a'i monitro ar ran ei sefydliadau ei hun tra bydd tîm Caerdydd Ddwyieithog yn arwain ar hwyluso'r Strategaeth o safbwynt y Cyngor.<br><br>Trwy gyfrwng y strategaeth hon byddwn yn dechrau ar daith i hyrwyddo a hwyluso'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd, ac yn ail-ymweld â'r strategaeth er mwyn gosod targedau pellach. Deellir na ellir cyflawni gweledigaeth y Cyngor o greu Caerdydd ddwyieithog o fewn 5 mlynedd yn unig. |

| | A ystyriwyd sut y bydd y Strategaeth/Polisi/Gweithgaredd yn effeithio ar un neu ragor o'r 7 Canlyniad sy'n Canolbwyntio ar Ddinasyddion Caerdydd? | Ticiwch + | - | Ntrl | Ansicr | Tystiolaeth neu awgrym ar gyfer gwella/lliniaru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| 1.8 | **Mae'r Cyngor yn sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y ddinas a'r dinasyddion trwy bartneriaethau cryf**<br>*Ystyriwch yr effaith bosibl ar:*<br>• *atgyfnerthu partneriaethau gyda'r sectorau busnes a gwirfoddol*<br>• *yr agenda gydweithio a'r potensial ar gyfer gwasanaethau a rennir, gweithio trawsffiniol ac arbedion effeithlonrwydd* | X | | | | Mae hon yn strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. Felly, bydd cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus; rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg.<br><br>Mae'r holl bartneriaid a restrwyd yn y strategaeth hon wedi cytuno i roi'r cynllun ar waith a monitro cynnydd yn erbyn adrannau perthnasol y cynllun gweithredu. |

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| **Oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb?** | X | |
| **Oes angen Asesiad llawn o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn?** | | X |

## CRYNODEB O'R GWERTHUSIAD (amlygu effeithiau cadarnhaol a negyddol y polisi/cynllun/project a asesir, dangos sut y mae'n cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y ddinas):

Un o ofynion Safonau'r Gymraeg oedd bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn llunio ac yn cyhoeddi strategaeth 5 mlynedd erbyn 30 Medi 2016 sy'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r safon hon (145) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys targed i gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eu hardal.

Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft Caerdydd Ddwyieithog ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 30 Medi yn unol â'r gofynion ac ers hynny mae cynllun gweithredu manwl ar gyfer y strategaeth wedi'i ddatblygu gyda'n partneriaid er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd.

Mae hon yn strategaeth ar gyfer y ddinas gyfan sy'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd. Felly, bydd cyflawni'r strategaeth yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth: rhwng partneriaid sector cyhoeddus; rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg. Ym mis Hydref, cynhaliodd y Cyngor weithdy ymgynghori llwyddiannus gyda dros 26 o sefydliadau partner sy'n ein helpu i weithredu'r strategaeth hon.

Mae'r strategaeth yn cynnwys targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd dros gyfnod o bum mlynedd yn unol â gweledigaeth Llywodraeth Cymru am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn i Gaerdydd chwarae ei rhan yn cyflawni'r weledigaeth hon, rydym wedi gosod targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd gan 15.9% i 42,584 erbyn Cyfrifiad 2021.

Trwy gyfrwng y strategaeth hon byddwn yn dechrau ar daith i hyrwyddo a hwyluso’r iaith Gymraeg yng Nghaerdydd, ac yn ail-ymweld â’r strategaeth er mwyn gosod targedau pellach. Deellir na ellir cyflawni gweledigaeth y Cyngor o greu Caerdydd ddwyieithog o fewn 5 mlynedd yn unig.

## PA GAMAU GWEITHREDU SYDD WEDI EU NODI NEU PA NEWIDIADAU SYDD WEDI EU GWNEUD I’R POLISI/CYNLLUN/PROJECT O GANLYNIAD I’R GWERTHUSIAD?

Cynhaliwyd y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu canlynol, ac mae'r cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â'n partneriaid arweiniol a fydd yn helpu'r Cyngor i gyflawni blaenoriaethau'r strategaeth er mwyn cyflawni ein gweledigaeth o 'Gaerdydd wirioneddol ddwyieithog'.

- Ymgynghoriad Cyhoeddus Ar-lein – 223 o ymatebion i gyd
- Arolwg Staff mewnol
- 11 Awst – digwyddiad ymgynghori mewnol
- Digwyddiad rhanddeiliaid 20 Hydref - Ymhlith y mynychwyr roedd Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, sefydliadau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Menter Caerdydd ac Urdd Gobaith Cymru.

## **Rhan 2:** *Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)*

| | | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Ydy'r cynllun neu raglen yn nodi'r fframwaith ar gyfer cydsynio i ddatblygu yn y dyfodol? | | X |
| 2.2 | Ydy'r cynllun neu raglen yn debygol o gael effaith amgylcheddol arwyddocaol, cadarnhaol neu negyddol? | | X |

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| **Oes angen Asesiad Amgylcheddol Strategol Llawn?**<br>▪ **Os yw'r atebion i gwestiynau 2.1 a 2.2 ill dau yn 'Ydy', yr ateb yw 'Oes'**<br>▪ **Os oes angen AAS Llawn, cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy er mwyn trefnu (manylion isod)** | | X |

Os nad ydych yn siŵr o'ch atebion i'r cwestiynau uchod, cysylltwch â'r Uned Datblygu Cynaliadwy am gyngor ar (029) 2087 3228 neu e-bostiwch: datblygucynaliadwy@caerdydd.gov.uk

## **Rhan 3:** *Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)*

| | | Bydd | Na fydd | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|
| 3.1 | Fydd y cynllun, project neu raglen yn arwain at weithgaredd sy'n effeithio ar safle Ewropeaidd, megis Aber Afon Hafren neu Goedwigoedd Ffawydd Caerdydd? | | X | |
| 3.2 | Fydd y cynllun, project neu raglen yn arwain y datblygiad tuag at ardal sy'n cynnwys safle Ewropeaidd, megis Aber Afon Hafren neu Goedwigoedd Ffawydd Caerdydd, neu'n effeithio'n anuniongyrchol ar safle Ewropeaidd? | | X | |
| 3.3 | A fydd angen ARhC llawn? | | | |

Anfonir manylion y strategaeth at Ecolegydd y Sir yng ngham cwblhau'r broses er mwyn penderfynu a oes angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch (029) 2087 3215 neu e-bostiwch bioamrywiaeth@caerdydd.gov.uk

## **Rhan 4:** *Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011*

| | | Ydw/ Ydy | Nac ydw / Nac ydy | Ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Ydych chi wedi ystyried sut gallai'r polisi gael ei lunio fel bod y penderfyniad yn cael effaith gadarnhaol neu'n cynyddu effeithiau cadarnhaol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r iaith Gymraeg? | X | | |
| 4.2 | Yw'r polisi'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg? | X | | |

Os nad ydych yn siŵr o'ch atebion i'r cwestiynau uchod, cysylltwch â thîm Caerdydd Ddwyieithog am gyngor ar (029) 2087 2527 neu e-bostiwch: caerdydd-ddwyieithog@caerdydd.gov.uk

## Atodiad 1 – Gofynion Statudol

**Mae'n bosibl y bydd yr Adnodd Sgrinio Statudol yn nodi'r angen i gynnal asesiadau statudol penodol:**

- **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb:** *Mae'r asesiad hwn yn ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Cydraddoldeb 2011 Llywodraeth Cymru.*
- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):** *Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu cynaliadwy fod yn brif egwyddor drefniadol ar gyfer y sefydliad. Golyga hyn fod dyletswydd i ystyried datblygu cynaliadwy mewn penderfyniadau strategol.*
- **Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru - Cydamcanu – Cydymdrechu:** *Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio cynllun integredig sengl i fodloni gofynion statudol dan amrywiaeth o ddeddfwriaeth. Felly, rhaid i Gyngor Dinas Caerdydd ddangos ei gyfraniad at gynllun integredig Caerdydd ei hun: "Beth sy'n Bwysig".*
- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn:** *Mae canllawiau Deddf Plant 2004 i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.*
- **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn:** *Mae'r egwyddorion yn gofyn am ystyriaeth o annibyniaeth, cyfranogiad, gofal, hunan-foddhad ac urddas.*
- **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:** *Mae'r Mesur yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg, Comisiynydd y Gymraeg a'r rhyddid i siarad Cymraeg.*
- **Asesiad o Effaith ar Iechyd:** *Mae AEI yn ystyried effeithiau posibl polisïau, rhaglenni neu brojectau ar iechyd poblogaeth.*
- **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:** *Mae Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd (Cynefinoedd Naturiol &c.) (Diwygio) 2007 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o gynlluniau defnydd tir.*
- **Asesiad Amgylcheddol Strategol:** *Mae Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar gyfer cynlluniau, rhaglenni a pholisïau sydd â goblygiadau o ran defnydd tir ac effeithiau amgylcheddol sylweddol.*